## HUW WILLIAMS yn trafod

# CAMP A RHEMP IEUAN GWYLLT



*IEUAN GWYLLT 1822-1877*

MANTEISIWYD yn llawn ar rifyn Mawrth 1977 o'r *Casglwr* — y rhifyn cyntaf — i dalu teyrnged i Ieuan Gwyllt, ac i atgoffa darllenwyr ei bod y pryd hynny yn ganmlwyddiant ei farw.

Un o feibion dawnus Bro Prifwyl 1992 oedd Ieuan, a gŵr a dreuliodd gyfnod pan oedd yn ieuanc yng ngwasanaeth Griffith a Roberts, fferyllwyr yn Aberystwyth, cyn mynd i Goleg Borough Road, Llundain, yn 22 oed am gwrs o addysg.

Mae'n debyg mai fel cerddor yr enillodd y gŵr hwn ei drwydded i anfarwoldeb, ond priodol serch hynny yw cofio ei fod yn un o ffigurau amlochrog y ganrif ddiwethaf, ac iddo wasanaethu'r genedl fel gweinidog, emynydd, darlithydd, llenor, newyddiadurwr, areithydd, beirniad eisteddfod, arweinydd cymanfa, golygydd a chyfansoddwr.

A'r hyn sy'n syndod yw ei fod wedi llwyddo i gyflawni cymaint o waith, yn arbennig dros ei enwad, y Methodistiaid Calfinaidd, a thros gerddoriaeth y genedl mewn oes gymharol fer, gan farw yn anterth ei weithgarwch yn 55 oed.

Fe fu — ac fe fydd — llawer o ddadlau am y modd y dylanwadodd Ieuan Gwyllt fwyaf ar Gymru. Trwy ei ddarlithiau ac fel beirniad canu ac arweinydd cymanfaoedd y bu hynny, medd rhai, ond ei gampwaith yn ôl eraill oedd cyhoeddi *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* yn 1859, blwyddyn diwygiad crefyddol yn ein gwlad.

* * *

ER IDDO fod yn weinidog efengyl ymroddgar, yn ôl pob sôn, dyrchafu safon caniadaeth y cysegr yng Nghymru ydoedd prif nod ei fywyd, a'i waith mwyaf o ddigon yn y maes hwnnw oedd treulio cyfnod maith yn casglu alawon cysegredig, a'u cyhoeddi yn ei *Lyfr Tonau Cynulleidfaol.* Ac fe ddangosodd y genedl hithau ei hedmygedd a'i gwerthfawrogiad o'i lafur trwy brynu 17,000 o gopïau o'r gyfrol honno o fewn tair blynedd ar ôl ei chyhoeddi.

Soniwyd droeon fod i'r casgliad tonau hwn le pwysig iawn yn natblygiad caniadaeth y cysegr yn ein gwlad, ac fel y bu i Ieuan newid ansawdd canu cynulleidfaol y genedl o fod yn ddifywyd ac anniben iawn yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd, i fod yn ganu gwresog a deallus, a lwyddodd i ddenu sylw cerddorion ac awduron — brodorol ac estron — erbyn diwedd saithdegau'r ganrif ddiwethaf.

Cynhwysai'r llyfr tonau 220 o donau a dwsin o Salm-donau, a bwriad ei olygydd oedd iddo fod yn gasgliad 'nid yn unig o donau da ond o'r tonau gorau'. Treuliwyd chwe blynedd llafurus iawn yn casglu a threfnu'r tonau, ac fe gostiodd yr antur mor ddrud i'r golygydd druan, mewn amser ac arian, fel y penderfynodd ohirio llu o ymrwymiadau eraill, gan gynnwys priodi a phregethu!

Pan ymddangosodd y Llyfr Tonau, cafodd ganmoliaeth mawr gan y cerddorion, a thystiai amryw ohonynt erbyn tua 1875 ei fod yn cael ei arfer yn lled gyffredin trwy'r wlad, ac wedi 'cychwyn cyfnod euraid canu cynulleidfaol Cymru'.

* * *

OND NID pawb yn y ganrif ddiwethaf a groesawodd y casgliad, ac nid pawb heddiw ychwaith sy'n barod i gydnabod mai'r Llyfr Tonau oedd *magnum opus* Ieuan Gwyllt. Yn hytrach, dadleuir yn aml bod golygydd y gyfrol wedi gwneud mwy o gam nag o gymwynas â cherddoriaeth eglwysig ei wlad, a hynny am fod prif bwyslais y casgliad ar alawon estron, sef alawon Ellmynig, ac am y ceid hefyd ynddo nifer o alawon Cymreig a'u harddull eglwysig wedi ei weddnewid gan y golygydd mewn ffordd gwbl annerbyniol, neu eu 'golygu' i'r fath raddau nes eu handwyo'n llwyr fel cyfryngau mawl, neu ynteu fel 'alawon gwerin brodorol'.

Prin yw'r dystiolaeth yng nghylchgronau'r ganrif ddiwethaf bod llawer o feirniadu ar Ieuan Gwyllt, ond credaf bod ambell gyfeiriad hwnt ac yma yn dweud llawer wrthym heddiw am ymateb rhai o 'gerddorion cyffredin' y genedl i'r gwaith o ddiwygio alawon Cymreig, ac yn haeddu sylw.

Mewn llythyr dienw (yn ystod oes Ieuan Gwyllt!) a ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd 1872 o'r *Drysorfa* (tt.448-9), dan y pennawd 'Canu effeithiol', dywed 'Hen Gantor Sir Benfro' rai pethau heb flewyn ar dafod:

> '. . . *Nis gallaf draethu y galar a'r tristwch sydd yn y dyddiau hyn yn llanw fy enaid wrth fyned i dŷ Dduw, oherwydd na chaf yno ganu yr hen donau nefolaidd yn awr ag y bu fy enaid yn mwynhau cymaint o'r nefoedd wrth eu canu gynt. Maent wedi eu darnio a'u rhwygo gan I- G-, nes yw'r meluster bron i gyd wedi ei golli, yn ôl ein barn ni. Pe buasai y casglydd wedi cyfansoddi rhai gwell na'r hen, fe enwogasai ei hun; ond wrth symud terfynau yr hen dadau yn hyn (Diarhebion xxii:18), nes llanw hen bererinion Sion â galar, y mae wedi hynodi ei hun . . .*
>
> *'Tebygwn pe baem traed yn rhydd*
> *o'r blin gaethiwed hyn,*
> *Na wnawn ond canu byth tra bwyf*
> *am ras Calfaria fryn.'*

Pwy tybed oedd awdur y llythyr? Ceir yr ateb gan 'Henry W. Evans, Solva, Pem' yn rhifyn Hydref 26, 1893 o'r *Western Mail.* Dywed Mr Evans mai William Evans, Ambleston, Sir Benfro — hen ewythr iddo — oedd y cerddor a fentrodd feirniadu Ieuan Gwyllt mor hallt, a bod yn ei feddiant gasgliad tonau mewn llawysgrif, a fu'n perthyn iddo, yn dwyn y teitl 'Old Welsh Tunes as sung in Pembrokeshire', a'i ddyddio 1820 (ddwy flynedd cyn geni Ieuan Gwyllt!).

Yn ôl y nai, amcan William Evans yn cofnodi'r alawon oedd er mwyn eu diogelu yn eu ffurfiau cyntefig, ac fe newidiodd Ieuan Gwyllt lawer ar ei hen ffefrynnau, meddai.

* * *

AM RAI blynyddoedd ar ôl i'r *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* weld golau dydd, mae'n amlwg bod amryw o'r eglwysi yn mynnu canu rhai o'r hen alawon a andwywyd gan Ieuan Gwyllt 'yn ôl yr hen drefn', ac yn ei chael hi'n anodd derbyn (ac weithiau i argraffu) yr alawon yn eu ffurfiau diwygiedig.

Mor ddiweddar â 1886 — tua naw mlynedd ar ôl marw Ieuan Gwyllt — mewn eisteddiad o Gyfarfod Misol Arfon ym Mhenmaen-mawr (Tachwedd 8/9), fe wnaethpwyd datganiad mewn ymateb i gwynion rhai o'r cerddorion:

> *'Dymunir galw sylw at y ffaith fod cyfnewidiadau lled bwysig wedi eu gwneud gan Ieuan Gwyllt mewn llawer o'r tonau yn yr argraffiadau diweddar, ac y dylid wrth argraffu'r tonau at y cymanfaoedd fod yn ofalus i godi y tonau yn eu ffurf diwygiedig.'*
>
> (Y Goleuad, *Tachwedd 13, 1886*)

Erbyn heddiw, y duedd yw derbyn cyfnewidiadau Ieuan Gwyllt — ei 'waith siswrn', ys dywedodd rhywun — yn ddigwestiwn, ac eithrio efallai gan y rhai sy'n gyfarwydd â ffurfiau gwreiddiol rhai o'r hen donau, neu ffurfiau cyntefig yr alawon gwerin hynny y mentrodd Ieuan Gwyllt eu haddasu fel cyfryngau mawl ar ôl ' eu puro a'u glanhau'.

Yn bersonol, byddaf yn gofidio'n aml am nad oes gennym enghreifftiau o gynulleidfaoedd yn canu rhai o donau mawr y genedl cyn 1859 wedi eu diogelu ar dâp. Byddem wedyn mewn sefyllfa i bwyso a mesur camp — a rhemp honedig — Ieuan Gwyllt yn deg a chytbwys!


L. G. HEYWOOD

Llyfrwerthwr

Catalog 16: Llyfrau ar Gymru, y Gororau a Cheltica

Catalog 17: Deddfau Rheilffyrdd Cymru

Copïau o'r catalogau ar gael yn rhad ac am ddim.

Yr ydym bob amser yn awyddus i brynu llyfrau Cymreig.

Usher House, 30 Mill Street,
Ludlow, Shropshire SY8 1BG
Ffôn: Ludlow (0584) 872658